Beth maen nhw'n ei ddweud?

Trosolwg

A yw coed yn siarad â'i gilydd?
Sut y mae'r cymylau yn ein gwylio wrth lithro heibio?
Beth y mae'r morgrug yna'n ei drafod wrth weithio?



Gweithgareddau

Ewch am dro gyda'ch gilydd yn araf bach o gwmpas eich man awyr agored. Oedwch i edrych yn ofalus ar goed, blodau, cymylau, pryfed, brigau, pyllau neu ddail. Gwahoddwch y plant i ddychmygu beth y gallai'r pethau hynny fod yn ei ddweud wrth ei gilydd. Beth yw'r problemau y maent yn eu datrys neu'r jôcs y maent yn eu dweud? Anogwch nhw i ddefnyddio lleisiau doniol ac iaith ffug ac i adrodd stori a sgwrsio'n ddychmygus. Gall yr oedolion fodelu syniadau hefyd, "Efallai fod y morgrug yn cynllunio antur?" neu "Tybed sut mae'r byd yn edrych os ydych mor fach?"

Offer

- Man awyr agored
- Chwilfrydedd a'r dychymyg
- Eich lleisiau

Cwestiynau allweddol

Beth gallai'r coed fod yn siarad amdano?
A yw'r cymylau yn trafod pa lwybr y dylent ei ddilyn ar draws yr awyr?
Sut byddai'r gwynt yn swnio pe bai'n gallu siarad?

Deilliannau dysgu

Caiff y plant eu hannog i arsylwi byd natur yn fanwl, rhannu syniadau a datblygu hyder i ddefnyddio iaith ddisgrifiadol, lleisiau gwahanol a syniadau dychmygus. Mae hynny'n hybu'r dychymyg, sgiliau cyfathrebu a datblygiad ieithyddol, y gallu i adrodd stori, creadigrwydd a hunanfynegiant.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Dechreuwch greu syniadau a straeon dychmygus syml
- Datblygwch sgyrsiau hirach a dilyniannau hirach wrth adrodd stori
- Defnyddiwch iaith ddisgrifiadol a lleisiau neu gymeriadau gwahanol
- Ceisiwch feithrin hyder i rannu syniadau ag eraill